**Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser: Canolfan Ymchwil Canser Cymru**

**Dydd Mercher 5 Ebrill 2017**

**Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd**

**Cadeirydd: Julie Morgan AC**

**Yn bresennol:**

Julie Morgan AC
Dai Lloyd AC
Mike Hedges AC
Yr Athro John Chester, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Canser Cymru
Libby Batt, Canolfan Ymchwil Canser Cymru
Helen West, Swyddfa Julie Morgan AC
Nancy Cavill, Swyddfa Julie Morgan AC
Clare Bath, Ymchwil Canser y DU
Cleifion
Cefnogi sefydliadau

**Agenda**

- Ymchwil Canser yng Nghymru
- Pwysigrwydd ymchwil canser
- Yr angen i gael strategaeth ymchwil canser ar gyfer Cymru
- Partneriaeth Canser Cymru - Pam mae angen inni weithio gyda'n gilydd, a sut y gellir gwneud hynny
- Trosolwg o'r gwaith a wnaed gan Ganolfan Ymchwil Canser Cymru hyd yma a'r camau nesaf
- Holi ac Ateb

**1. Cyflwyniad gan yr Athro John Chester, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Canser Cymru -**

Rhoddodd yr Athro John Chester y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch sut y mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru wedi symud ymlaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a sut y mae ymchwil yn cynorthwyo yn y frwydr yn erbyn canser.
Mae'r Ganolfan wedi penodi Swyddogion Arweiniol ar gyfer themâu ym mhob maes (Cyn-glinigol, cymhwyso, clinigol, cymuned).
Mae'r Ganolfan wedi llwyddo i ddod â'r gymuned ymchwil at ei gilydd a chynnwys aelodau o'r cyhoedd mewn prosectau ymchwil, gan annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil, ac ymgysylltu â'r cyhoedd wrth roi gwybodaeth am waith ymchwil iddynt.
Bydd Canolfan Ymchwil Canser Cymru hefyd yn cynnal Cynhadledd Canser Cymru mewn partneriaeth â Rhwydwaith Canser Cymru ym mis Tachwedd a fydd yn dod â'r holl gymuned ganser at ei gilydd. Mae Canolfan Ymchwil Canser Cymru hefyd yn gweithio gyda

Rhwydwaith Canser Cymru ar ddwy strategaeth ymchwil canser (un ar gyfer Caerdydd ac un ar gyfer Cymru).
Bydd Canolfan Ymchwil Canser Cymru yn parhau i sicrhau y cynhelir gwaith ymchwil cynaliadwy a thymor hir yng Nghymru fel bod modd parhau i wneud cynnydd yn y maes.

**2. Trafodaeth**

Nododd Mike Hedges AC mai rhwystro afiechyd yw'r prif nod, a holodd ynghylch beth arall y gellir ei wneud i sicrhau bod rhagor o ganserau yn cael eu hatal a'u canfod yn gynt yng Nghymru. Dywedodd yr Athro John Chester fod gan Ganolfan Ymchwil Canser Cymru swyddog arweiniol ar gyfer Sgrinio, Atal a Gwneud Diagnosis Cynnar, sy'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r Bartneriaeth Ryngwladol Meincnodi Canser er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o ganser, a'i bod yn canolbwyntio ar raglen ymchwil i sgrinio canser, ei atal a'i ganfod yn gynnar.

Ychwanegodd yr Athro John Chester hefyd mai cael y driniaeth fwyaf effeithiol mewn modd amserol sy'n hollbwysig o ran gwella canlyniadau canser, a bod datblygiadau mewn ymchwil canser yn golygu y gall meddyginiaethau modern erbyn hyn gael eu 'personoli' i dargedu a thrin grwpiau o gleifion penodol a'r math o ganser sydd ganddynt yn fwy cywir. Mae profion diagnostig moleciwlaidd yn helpu i ganfod y mwtaniadau genetig sy'n ein galluogi i wahanu cleifion yn grwpiau, ond ar hyn o bryd nid oes gan y Llywodraeth bolisi clir ynglŷn â chael mynediad i brofion o'r fath o fewn y GIG yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio Strategaeth ar gyfer Genomeg a Meddygaeth Fanwl yng Nghymru, felly bydd angen sicrhau mecanwaith cenedlaethol i gyllido'r profion hyn yng Nghymru. Hefyd nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru wneud rhagor i weithio mewn partneriaeth â'r Diwydiant Fferyllol.

Arweiniodd hyn at sgwrs am y gwaith hanfodol y mae Banc Canser Cymru yn ei wneud i gasglu a storio samplau meinweoedd, sy'n cyfrannu at well ddealltwriaeth o ganser ymhlith gwyddonwyr. Fodd bynnag mae angen gwneud rhagor i gynyddu rhoddion o samplau meinwe, a gellid cyflawni hyn drwy symleiddio'r broses gydsynio. Mae canlyniadau gwaith ymchwil wedi dangos y byddai'r cyhoedd yn cefnogi hyn, felly efallai y gallem ystyried cael system optio allan i gyd-fynd â'r system optio allan newydd yng Nghymru ar gyfer rhoi organau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9am**.